**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**21ain Mai 2007**

**STRATEGAETH ARCHWILIAD MEWNOL 2004 HYD 2008**

**Adroddiad gan Mike Halstead,**
**Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

**DATGANIAD STRATEGAETH**

**1.** Strategaeth gyffredinol yr Archwiliad Mewnol yw:

**"I gyflwyno cynllun archwilio yn seiliedig ar risg mewn modd proffesiynol, annibynnol, i ddarparu barn ar y lefel o sicrwydd y gellir rhoi i'r sefydliad ar amgylchedd y rheolaeth fewnol, ac i wneud argymhellion i'w wella."**

Mae cylch gorchwyl Archwiliad Mewnol wedi eu dogfennu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i'r ddarpariaeth o wasanaethau ariannol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y cyfnod 1af Ebrill 2004 hyd 31ain Mawrth 2008. Mae'r mesurau sydd yn eu lle i gyflwyno manyleb ac amserlen y gwasanaethau a gynhwysir yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth wedi eu hymhelaethu a'u gosod isod.

## SAIL STATUDOL AM ARCHWILIAD FEWNOL

**2.** Mae'r angen am swyddogaeth Archwiliad Mewnol i awdurdodau lleol yn cael ei awgrymu yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n gofyn i awdurdodau "wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir". Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) 2005 yn gofyn yn benodol fod "corff perthnasol yn cynnal system ddigonol ac effeithiol o archwiliad mewnol o'i gofnodion cyfrifo ac o'r systemau o reolaeth fewnol yn unol ag arferion archwiliad mewnol cywir".

## DIFFINIAD AC AMCANION

**3.** Mae Archwiliad Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd, sy'n bennaf, yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol ar yr amgylchedd rheoli sy'n cynnwys rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu drwy werthuso ei effeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion y sefydliad. Mae'n archwilio, gwerthuso ac adrodd ar ddigonolrwydd yr amgylchedd rheoli'n wrthrychol fel cyfraniad tuag at y defnydd priodol, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Mae'r amgylchedd rheoli yn cynnwys holl weithrediadau, adnoddau, a gwasanaethau'r awdurdod, a'i gyfrifoldeb i gyrff eraill.

**4.** Mae Rheoliad 4 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn gofyn i awdurdodau lleol wneud adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar effeithlonrwydd ei systemau o reolaeth fewnol a chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol yn flynyddol gyda datganiadau ariannol yr awdurdod. Roedd y flwyddyn gyntaf lle'r oedd angen i gynhyrchu Datganiad o Reolaeth Fewnol yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2005/06, i arddangos cryfder ei drefniadau. Mae Archwiliad Mewnol yn ffurfio rhan bwysig o'r fframwaith i ddarparu'r sicrwydd hwn. Er mwyn i'r Archwiliad Mewnol allu darparu'r sicrwydd angenrheidiol, bydd angen datblygu a gweithredu mecanwaith gorfforaethol lle bydd tystiolaeth yn cael ei gynhyrchu a'i goladu gyda chefnogaeth

**DIFFINIAD AC AMCANION** *(parhad)*

lawn y Prif Swyddog Tân a'r Cadeirydd, gyda chefnogaeth Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog, sy'n gyfrifol am sicrhau fod y datganiad o reolaeth fewnol yn gywir ac yn ddilys.

**5.** Mae Archwiliadau Mewnol yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol wrth gynghori rheolwr mewn perthynas â materion o fewn ei gylch gwaith, megis gweithredu rheolaethau priodol yn nhermau prosiectau, datblygiadau a systemau newydd. Pennir y dyraniad union o adnoddau mewn perthynas â gwaith ymgynghorol yn y cynllun archwilio. Caniateir dyrannu amser ar wahân i weithgareddau ymgynghoriad, gwaith sy'n ymwneud â thwyll ac archwiliadau dilynol.

**STATWS**

**6.** Mae Archwiliad Mewnol yn gyfrifol i'r Trysorydd ar gyfer dibenion rheoli llinell, ac yn gymorth i ryddhau swyddogaethau statudol y Prif Swyddog Cyllid fel a ddiffinnir yn Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Fodd bynnag, mae Archwiliad Mewnol yn annibynnol yn ei gynlluniad a'i weithrediad.

**7.** Mae gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio fynediad uniongyrchol i'r Prif Swyddog Tân, pob lefel o reolaeth ac aelodau etholedig. Mae gan Archwilwyr Mewnol yr awdurdod i:

- Gael mynediad i safleoedd yr awdurdod ar unrhyw amser rhesymol.
- Gael mynediad i holl gofnodion, dogfennau, gwybodaeth a gohebiaeth sy'n berthnasol i unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill a ystyrir yn angenrheidiol, at ddibenion adolygiadau archwilio ac/neu ymchwiliadau.
- Werthuso digonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolau mewnol a gynllunnir i sicrhau asedion a data i gynorthwyo rheolaeth wrth atal twyll.

**STATWS** *(parhad)*

- Ofyn am eglurhad a ystyrir yn angenrheidiol i fodloni nhw'u hunain o gywirdeb unrhyw fater o dan archwiliad.
- Ofyn i unrhyw weithiwr o'r Awdurdod Tân ac Achub i gynhyrchu arian, deunyddiau ac unrhyw eiddo arall sy'n berchen i'r awdurdod yn eu heiddo neu o dan eu rheolaeth.
- Gael mynediad i gofnodion sy'n berchen i drydydd partïon, megis contractwyr neu bartneriaid, pan fo'r angen ac yn briodol.

**CYFLWYNO'R GWASANAETH ARCHWILIO**

**8.** Mae Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn gyfrifol am gyflwyno'r gwasanaeth archwilio yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. I sicrhau fod modd cyflawni hyn, mae trefniadau priodol i:

- bennu a chynllunio'r gwaith sydd i'w wneud yn seiliedig ar Asesiad Anghenion a phroses cynllunio'n seiliedig ar risg, cynllun archwilio gweithredol blynyddol a chynlluniau gwaith misol. Mae'r holl gynlluniau yn seiliedig ar asesiad o risg.

- ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i gyflwyno'r cynllun archwilio, sgiliau angenrheidiol (mewn archwiliad cyffredinol ac ardaloedd technegol) a chyfleusterau cefnogi, megis cyfleusterau TG, offer a rheoli a phrosesau gweinyddu.

**9.** Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno ar sail Asesiad Anghenion (**Atodiad A**), dull yn seiliedig ar risg i bennu anghenion yr Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn a chynlluniau gweithredol manwl fydd yn cael eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol yn flynyddol am gymeradwyaeth. Mae'r asesiadau yn gosod y nifer o ddyddiau sydd eu hangen i'r Archwiliad Mewnol adolygu'r ardaloedd sydd wedi eu cynnwys yn ddigonol, a lefel asesiad risg ar gyfer pob aseiniad archwiliad arfaethedig. Nod pennaf y dull yma yw i sicrhau fod Archwiliad

**CYFLWYNO'R GWASANAETH ARCHWILIO** *(parhad)*

Mewnol yn gallu cyflwyno barn ar amgylchedd reoli drwy gyfeirio adnoddau digonol yn seiliedig ar risgiau perthynol o'r gweithrediadau, adnoddau a gwasanaeth, drwy ddefnyddio proses asesu risg ffurfiol. Mae'r broses asesu risg yn cymryd amrediad o risgiau strategol, corfforaethol, gwasanaeth a gweithredol i ystyriaeth, yn cynnwys y rhai hynny gafodd eu hadnabod drwy'r broses Rheoli Risg a gan archwilydd allanol a barnau'r uwch reolwyr ar y materion hyn. Lle na ystyrir yr adnoddau sydd ar gael yn ddigonol gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio i ddarparu barn, bydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r sefydliad drwy'r Panel Gweithredol.

**10.** Mae'r Cynllun yn cydbwyso'r gofynion canlynol:

- yr angen i sicrhau fod y Cynllun Archwilio yn cael ei gwblhau i'r lefelau targed sefydlwyd gan ddangosyddion perfformiad yr adran;
- yr angen i sicrhau fod systemau ariannol craidd yn cael eu hadolygu'n ddigonol i ddarparu sicrwydd fod gan y rheolwyr drefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rheolaeth ariannol y bydd yr Archwiliad Allanol yn ddibynnol arno;
- yr angen i adolygu trefniadau strategol a gweithredol eraill yn briodol;
- yr angen am amser rhydd i ddelio gyda materion nas cynllunnir fydd angen eu hadolygu neu eu harchwilio efallai;
- y dyraniad perthynol o adnoddau rhwng gwasanaethau sicrwydd, twyll ac ymgynghori a ddarparwyd gan archwiliad mewnol.

**CYFLWYNO'R GWASANAETH ARCHWILIO** *(parhad)*

**11.** Mae protocol archwiliad yn ei le sy'n egluro'r berthynas waith rhwng Adran Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Allanol yr awdurdod. Y rhesymau am ddogfennu'r berthynas yw:

- mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi dibyniaeth ar brosesau mewnol yr awdurdod, yn unol â chanllaw arfer da ac anghenion ei God Ymarfer Archwilio;
- i ffurfioli meysydd o gydweithrediad a chymorth, sydd wedi datblygu dros amser, gan helpu i leihau unrhyw gyfnod gorymylol o ymdrech archwilio a macsimeiddio cyfanswm yr adnoddau archwiliol.

**12.** Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a chynnwys y cynllun yn cael ei adolygu gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio mewn cysylltiad â'r Trysorydd a thrwy fonitro datblygiadau corfforaethol a gwasanaeth. Cynghorir y Panel Gweithredol o berfformiad yn erbyn y cynllun gweithredol.

**13.** Bydd Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio gyda Chanllaw Byrddau Arferion Archwilio i Archwilwyr Mewnol fel a ddehonglir yng Nghod Ymarfer Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU CIPFA a disgwyli'r i'r holl staff gydymffurfio gydag unrhyw safonau proffesiynol eraill. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn sicrhau fod Llawlyfr Archwilio cyfredol yn ei le yn gosod y safonau a ddisgwylir ar gyfer y gwasanaeth a bydd yn monitro cydymffurfiaeth gyda'r safonau yma, yn cynnwys safonau'n ymwneud â chynllunio, trin a chofnodi'r aseiniadau archwiliad.

**CYFLWYNO'R GWASANAETH ARCHWILIO** *(parhad)*

**14.** Mae Archwiliad Mewnol wedi gweithredu Pecyn Hyfforddi Archwilio CIPFA ers 2003 sydd wedi ei gysylltu â'r broses Datblygu ac Adolygu blynyddol mewn perthynas â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau fod yr hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu i alluogi'r holl archwilwyr i ennill y lefel o sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'r rolau.

**15.** Bydd Archwiliad Mewnol yn anelu i gydweithio'n effeithiol gyda'r archwilydd allanol a sicrhau y gellir rhoi dibyniaeth briodol ar weithgareddau'r Archwilydd Mewnol.

**16.** Mae dull cofnodi'r Archwiliad Mewnol wedi cael ei osod allan yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd wedi ei gymeradwyo a bydd yr Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio gyda'r dull hwn fel y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno canlyniadau ei waith.

**17.** Wrth gyflwyno pob aseiniad, bydd Archwiliad Mewnol yn edrych i wneud argymhellion ymarferol yn seiliedig ar ddarganfyddiadau'r gwaith a thrafod y rhain gyda'r rheolwyr, er mwyn i'r rheolwyr ymrwymo i gynllun gwaith priodol i weithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r amgylchedd reoli.

**ARGYMHELLIAD**

**18.** Y derbynnir Strategaeth Archwilio Mewnol 2004-08 gan y Panel Gweithredol.